OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 339 (Cy. 68)

2025 No. 339 (W. 68)

Y GYMRAEG

WELSH LANGUAGE

Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025

The Welsh Language Standards (No. 1, No. 2, No. 4, No. 6 and No. 7) Regulations (Amendment) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau").

Mae adran 25 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon, a bennir gan Weinidogion Cymru, os yw'r person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau a bod y safon yn gymwysadwy i'r person, yn ogystal â bod amodau eraill yn cael eu bodloni.

Mae adran 26 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson drwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon ("hysbysiad cydymffurfio").

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ("y Rheoliadau Safonau") yn pennu safonau. Mae'r Rheoliadau Safonau hefyd yn awdurdodi'r Comisiynydd (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol) i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn perthynas â safonau a bennir gan y Rheoliadau Safonau, i amryw gyrff.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1) ("the Measure") makes provision for the specification of standards of conduct in relation to the Welsh language ("standards").

Section 25 of the Measure requires a person to comply with a standard, which is specified by the Welsh Ministers, if, in addition to other conditions being met, the person is liable to be required to comply with standards and the standard is potentially applicable to the person.

Section 26 of the Measure enables the Welsh Ministers to specify standards by regulations, and section 39 enables them to provide that a standard is specifically applicable to a person by authorising the Welsh Language Commissioner ("the Commissioner") to give a notice to that person requiring compliance with the standard (a "compliance notice").

The Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015, the Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016, the Welsh Language Standards (No. 4) Regulations 2016, the Welsh Language Standards (No. 6) Regulations 2017 and the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018 ("the Standards Regulations") specify standards. The Standards Regulations also authorise (subject to certain exceptions) the Commissioner to give a compliance notice, in relation to standards specified by the Standards Regulations, to various bodies.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Safonau er mwyn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn cysylltiad â'r safonau a bennir yn y Rheoliadau Safonau, i gyrff ychwanegol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwnnw a'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol sy'n ymdrin â'r Rheoliadau hyn a'r Gorchymyn hwnnw. Gellir cael copi oddi wrth: Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

These Regulations amend the Standards Regulations to authorise the Commissioner to give a compliance notice, in respect of the standards specified in the Standards Regulations, to additional bodies.

These Regulations are connected to the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Amendment of Schedule 6) Order 2025. The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to that Order and these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared dealing with these Regulations and that Order. A copy can be obtained from the Cymraeg 2050 Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 339 (Cy. 68)

Y GYMRAEG

Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025

Gwnaed	*12 Mawrth 2025*
Yn dod i rym	*28 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), ac wedi cael cymeradwyaeth Senedd Cymru(**2**) yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Mawrth 2025.

Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

2.—(1) Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(4), yn y diffiniad o "corff", ar ôl "cyd-bwyllgor corfforedig" mewnosoder ", Awdurdod Cyllid Cymru".

(**1**) 2011 mccc 1.
(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 150(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) O.S. 2015/996 (Cy. 68), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/1352 (Cy. 351).

2025 No. 339 (W. 68)

WELSH LANGUAGE

The Welsh Language Standards (No. 1, No. 2, No. 4, No. 6 and No. 7) Regulations (Amendment) Regulations 2025

Made	*12 March 2025*
Coming into force	*28 March 2025*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 26, 27, 39 and 150(5) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011(**1**), having received the approval of Senedd Cymru(**2**) in accordance with section 150(2) of that Measure, make the following Regulations.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Welsh Language Standards (No. 1, No. 2, No. 4, No. 6 and No. 7) Regulations (Amendment) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 28 March 2025.

Amendment of the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015

2.—(1) The Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 1(4), in the definition of "body", after "a corporate joint committee" insert ", Welsh Revenue Authority".

(**1**) 2011 nawm 1.
(**2**) The reference in section 150(2) to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**3**) S.I. 2015/996 (W. 68), amended by S.I. 2021/1352 (W. 351).

(3) Ar ôl rheoliad 3(2) mewnosoder—

"(3) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i Awdurdod Cyllid Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau a ganlyn a bennir o dan reoliad 2—

(a) 1 i 144;

(b) 147 i 172;

(c) 175 a 176."

Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

3. Yn Atodlen 6 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016(**1**), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Comisiwn Ffiniau i Gymru ("*Boundary Commission for Wales*")";

"Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("*Future Generations Commissioner for Wales*")";

"Cymwysterau Cymru ("*Qualifications Wales*")";

"Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("*Trustees of the National Heritage Memorial Fund*")".

Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016

4.—(1) Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(2)(a), o flaen "Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru" mewnosoder "Panel Dyfarnu Cymru,".

(3) Yn Atodlen 6, yn y lle priodol mewnosoder "Panel Dyfarnu Cymru ("*Adjudication Panel for Wales*")".

(3) After regulation 3(2) insert—

"(3) The Welsh Ministers authorise the Welsh Language Commissioner to give a compliance notice to the Welsh Revenue Authority requiring it to comply with any of the following standards specified under regulation 2—

(a) 1 to 144;

(b) 147 to 172;

(c) 175 and 176."

Amendment of the Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016

3. In Schedule 6 to the Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016(**1**) at the appropriate places insert—

"Boundary Commission for Wales ("*Comisiwn Ffiniau i Gymru*")";

"Future Generations Commissioner for Wales ("*Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru*")";

"Qualifications Wales ("*Cymwysterau Cymru*")";

"Trustees of the National Heritage Memorial Fund ("*Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol*")".

Amendment of the Welsh Language Standards (No. 4) Regulations 2016

4.—(1) The Welsh Language Standards (No. 4) Regulations 2016(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 3(2)(a), before "the Agricultural Land Tribunal (Wales)" insert "the Adjudication Panel for Wales,".

(3) In Schedule 6, at the appropriate place insert "Adjudication Panel for Wales *("Panel Dyfarnu Cymru")*".

(**1**) O.S. 2016/182 (Cy. 76), a ddiwygiwyd gan adran 72 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3) a chan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).

(**2**) O.S. 2016/405 (Cy. 125), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/441 (Cy. 77).

(**1**) S.I. 2016/182 (W. 76), amended by Public Services Ombudsman (Wales) Act 2019 (anaw 3), section 72 and Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4) Schedule 1, paragraph 55.

(**2**) S.I. 2016/405 (W. 125), amended by S.I. 2018/441 (W. 77).

Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

5. Ar ôl rheoliad 3(4) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017(**1**) mewnosoder—

"(5) Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safonau 90 a 90A a bennir o dan reoliad 2 ac Atodlen 1."

Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018

6.—(1) Yn rheoliad 1(4) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018(**2**)—

(a) yn y diffiniad o "clinig gwasanaeth iechyd gwladol", yn lle "neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol" rhodder ", Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu Awdurdod Iechyd Arbennig";

(b) yn y diffiniad o "ysbyty gwasanaeth iechyd gwladol", yn lle "neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol" rhodder ", Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu Awdurdod Iechyd Arbennig".

(2) Yn Atodlen 6, yn y lle priodol mewnosoder "Awdurdodau Iechyd Arbennig ("*Special Health Authorities*")".

Amendment of the Welsh Language Standards (No. 6) Regulations 2017

5. After regulation 3(4) of the Welsh Language Standards (No. 6) Regulations 2017(**1**) insert—

"(5) Health Education and Improvement Wales requiring it to comply with standards 90 and 90A specified under regulation 2 and Schedule 1."

Amendment of the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018

6.—(1) In regulation 1(4) of the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018(**2**)—

(a) in the definition of "national health service clinic" for "or a National Health Service Trust" substitute ", a National Health Service Trust or a Special Health Authority";

(b) in the definition of "national health service hospital" for "or a National Health Service Trust" substitute ", a National Health Service Trust or a Special Health Authority";

(2) In Schedule 6, at the appropriate place insert "Special Health Authorities *("Awdurdodau Iechyd Arbennig")*".

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
12 Mawrth 2025

Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
12 March 2025

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2017/90 (Cy. 33), a ddiwygiwyd gan baragraff 40 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).
(**2**) O.S. 2018/441 (Cy. 77), a ddiwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (dsc 1) a pharagraff 16 o Atodlen 3 iddi.

(**1**) S.I. 2017/90 (W. 33), amended by the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1) Schedule 4, paragraph 40.
(**2**) S.I. 2018/441 (W. 77), amended by the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (asc 1), section 27, Schedule 3 paragraph 16.

ISBN 978-0-348-39674-4

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/339